



Adnodd Adolygu

Adran y Gymraeg,
Prifysgol Abertawe

Dr Hannah Sams

h.l.sams@abertawe.ac.uk



FFURFY NOFEL

NOD Y SESIWN

- Sut i fynd ati i astudio nofel: rhai technegau defnyddiol

PAM?

Uned 4

Arholiad llafar (20% o'ch marc terfynol)

‘Trafod nofel a gwneud cysylltiadau â thestunau perthnasol eraill’

A person with blonde hair, seen from the back, is sitting and reading an open book. They are wearing a dark green coat over a red scarf. The background is a dense forest with trees showing autumn foliage in shades of red, orange, and yellow. The scene is softly lit, suggesting a quiet moment in nature.

TRAFOD: BETH YW ELFENNAU
HANFODOL NOFEL YN EICH
BARN CHI?

RHAI AWGRYMIADAU:

1. **Plot:**
2. **Cymeriadau:**
3. **Themâu:**
4. **Iaith**
5. **Cyd-destun**
6. **Symbolaeth**


1. **Plot:** A ydych chi wedi darllen nofelau/straeon eraill sy'n sôn am rywbeth tebyg? Os felly, sut mae ymdriniaeth yr awduron o'r stori'n debyg neu'n wahanol?
2. **Cymeriadau:** Ydych chi'n gallu uniaethu â nhw? A ydych chi'n gallu meddwl am gymeriad tebyg neu gymeriad hollol gyferbyniol mewn testun arall?
3. **Themâu:** Beth yw prif themâu y nofelau yr ydych chi'n ei hastudio? A yw rhai o'r testunau eraill yr ydych chi wedi eu darllen yn ymdrin â'r un thema? Sut mae'r ymdriniaeth yn debyg neu'n wahanol?

- **4. Iaith:** Sut y byddech chi'n disgrifio iaith y nofelau? A ydych chi'n gallu meddwl am nofelau eraill sy'n defnyddio iaith yn yr un modd neu mewn modd cyferbyniol? Beth yw effaith defnydd yr awdur/es o iaith? A yw'n defnyddio llwyth o dechnegau arddull?
- **5. Cyd-destun:** Pryd y cyhoeddwyd y nofel? I ba raddau mae deall cyd-destun y cyfnod yn bwysig? A yw deall cefndir y nofelwyr yn bwysig i'ch gwerthfawrogiad o'r nofel?
- **6. Symbolaeth:** A yw symbolaeth yn bwysig yn y nofel? Sut a pham? A ydych chi'n gallu meddwl am destunau eraill sy'n gwneud defnydd tebyg o symbolau?

CYFEIRIWCH AT ENGHREIFFTIAU PENODOL
TRWY DDYFYNNU



SUT YDW I'N MYND ATI I
DDADANSODDI NOFEL?




BRAWYCHUS!

I ddechrau, mae astudio nofel yn gallu ymddangos braidd yn frawychus. Pam? Wel, am eich bod yn meddwl am yr holl elfennau y bydd disgwyl i chi eu trafod yn yr arholiad ar unwaith.

Nod y sesiwn hon, felly, yw eich hannog i graffu ar un elfen, neu un 'lliw' ar y tro trwy 'wisgo' sbectol dadansoddol penodol a fydd yn eich helpu i ffocysu ar yr elfen benodol honno cyn bwrw ymlaen i ystyried y sbectrwm cyfan.








CYFLE I ROI'R THEORI AR WAITH

CYFLE I GANOLBWYNTIO AR AMBELL UN SEF:

- Iaith
- Cymeriadau
- Symbolaeth





Y NOFELAU

CYMHARU: IAITH

Cymharu

- Beth sy'n debyg neu'n wahanol am yr iaith yn y pytiau o *Un Nos Ola Leuad* a *Dan Gadarn Goncrit*?
- A yw'r awdur/es yn defnyddio llawer o dechnegau arddull? Sut mae hyn yn debyg neu'n wahanol yn y ddau bwt?
- Pa dechnegau arddull a ddefnyddir gan y ddau awdur i greu rhythm? (Darllenwch y darnau yn uchel i glywed y rhythm.)

CYMHARU: CYMERIADAU

- Cymharwch gymeriad Maldwyn o *Dan Gadarn Goncrit* a Martha o nofel *Martha Jac a Sianco* gan Caryl Lewis gan ateb y cwestiynau isod:
 1. Sut y byddech chi'n disgrifio Maldwyn?
 2. Sut y byddech chi'n disgrifio Martha?
 3. A yw'r cymeriadau'n debyg neu'n wahanol? Sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol? Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol (o'r pytiau dan sylw).
 4. Sut y mae defnydd yr awduron o ddeialog yn y pytiau uchod yn ein helpu i ddeall y cymeriadau?

CYMHARU: SYMBOLAETH

Darllenwch y pwt o *Martha, Jac a Sianco* ac ystyriwch arwyddocâd y symbolaeth. Cymharwch hyn gydag arwyddocâd symbolaidd darn o *Blasu* gan Manon Steffan Ros.

1. Beth yw arwyddocâd y symbolaeth yn y ddau ddarn?
2. Sut mae'r ddau awdures yn defnyddio symbolau?

RHAI
AWGRYMIADAU:
IAITH

Tebyg	Gwahanol
	Mae Mihangel Morgan yn pentyrru technegau arddull. 1. Ydych chi'n gallu enwi rhai ohonynt? 2. Beth yw effaith y technegau arddull hyn?
	Mae Caradog Prichard yn defnyddio techneg llif yr ymwybod tra bod Mihangel Morgan yn disgrifio'r olygfa o safbwynt y 3ydd person.
Pwysigrwydd rhythm yn y darnau. 1. Pam fo hyn yn bwysig yn y darnau? 2. Sut y mae'r ddau awdur yn llwyddo i gyfleu rhythm?	

1. Sut y byddech chi'n disgrifio Maldwyn?

- Diegwyddor, celwyddog

2. Sut y byddech chi'n disgrifio Martha?

- Egwyddorol (beth sy'n dangos hynny yn y darn?)
- Traddodiadol (beth sy'n dangos hynny yn y darn?)
- Gonest

3. A yw'r cymeriadau'n debyg neu'n wahanol? Sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol? Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol (o'r pytau dan sylw).

4. Sut y mae defnydd yr awduron o ddeialog yn y pytau uchod yn ein helpu i ddeall y cymeriadau?

- Pwysleisio'r gagendor rhwng Maldwyn a Toni
- Gwrthgyferbynnu rhwng Judy a Martha

RHAI AWGRYMIADAU: SYMBOLAETH

1. Beth yw arwyddocâd y
symbolaeth yn y ddwy nofel?

Cacen Sinsir – rhywbeth sy'n
deffro atgofion

Gofal

Cariad

Brân – symbol o angau



Martha, Jac a
Sianco



Blasu

BARN ARHOLWYR HAF 2017

- Mae angen cadw'r cwestiwn mewn cof wrth drafod. Mae dal angen dysgu gwrando ar eiriad cwestiwn. Mae lle i ddatblygu, dadansoddi ac ystyried barn wahanol ond dylid dod yn ôl o hyd at y cwestiwn. Roedd tuedd gan rai unigolion eleni eto i grwydro a siarad yn hirwyntog a thrwy hynny arddangos diffyg aeddfedrwydd a threiddgarwch.

Peidiwch â cholli golwg ar y cwestiwn gwreiddiol sef:

‘Trafod nofel a gwneud cysylltiadau â thestunau perthnasol eraill’

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau penodol.

Cymharwch, cymharwch, cymharwch gan gadw eich prif ffocws ar y nofel dan sylw!



AR ÔL SGORIO GÔL, MAE'N RHAID MYND
NÔL AT Y CANOL (Y NOFEL YR YDYCH
CHI'N EI HASTUDIO) A DECHRAU ETO...


DARLLENWCH!

- ‘Roedd yr ymgeiswyr ar y brig yn cyfeirio at ystod helaeth iawn o lenyddiaeth ac yn dyfynnu’n berthnasol ohonynt – yn gerddi, straeon byrion a nofelau yn ogystal â dramâu a welwyd ganddynt. Amlygwyd dealltwriaeth ddofn ac roeddent yn gallu cymhwyso gwybodaeth a thynnu casgliadau perthnasol. Yn wir, roeddent yn serennu o gael y cyfle i drafod gweithiau eraill. Mae darllen eang yn parhau i wreiddio mewn ysgolion ac yn cyfoethogi profiad a chyfraniad y myfyrwyr.’

http://www.cbac.co.uk/examiner-reports/a-level/tag%20cymraeg%20iaith%20gyntaf%20adroddiad%20arholwyr%20haf%202017.pdf?language_id=2

DIOLCH!

- Cofiwch gysylltu os ydych chi am ofyn unrhyw gwestiynau:



h.l.sams@abertawe.ac.uk



cymraegabertawe



@CymraegAbertawe